**Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol ar Ariannu Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru: Adroddiad y Pwyllgor (2) 03-06.**

Hoffai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddiolch i'r Pwyllgor am yr adroddiad. Mae'n croesawu'r canfyddiadau ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r ddau argymhelliad yn yr Adroddiad.

**Argymhellion**

(i) Methodd y cyllidwyr cyhoeddus Cymreig ag asesu ac ymdrin yn ddigonol â'r peryglon a oedd ynghlwm wrth ariannu'r Ardd. Yn benodol, gellid bod wedi gwneud mwy i ymchwilio i effaith unrhyw fethiant i wireddu rhagolygon y cynlluniau busnes ac i gwestiynu'r rhesymau dros y newidiadau sylweddol yn rhagolygon yr Ardd mewn ceisiadau diweddarach. **Rydym yn argymell y dylai cyrff yn y sector cyhoeddus, wrth gloriannu ceisiadau am brosiectau cyfalaf mawr:**

a) **gynnal dadansoddiad o sensitifrwydd, gan nodi a dadansoddi effaith newidiadau mewn rhagolygon gweithredol allweddol;**

b) **gofyn am weld cynlluniau wrth gefn pe digwydd i'r prosiect fethu'n ariannol; ac**

c) **cwestiynu'n gadarn unrhyw newidiadau yn rhagolygon y cynlluniau busnes - yn enwedig y rheini a all fod yn seiliedig ar optimistiaeth ormodol.**

(ii) Os oes nifer o gyllidwyr cyhoeddus Cymreig yn ariannu prosiect cyfalaf mawr, dylent gydweithio i ffurfio barn ar y cyd ar y peryglon a rhoi cymorth parhaus yn ystod y cyfnod gweithredol cynnar tyngedfennol. **Rydym yn argymell y dylai cyrff yn y sector cyhoeddus, wrth ddelio â phrosiectau cyfalaf trydydd parti mawr:**

a) **gydweithredu i nodi'r manteision a'r peryglon, gan egluro pwy sy'n gyfrifol am agweddau penodol ar y cynlluniau busnes gan gofio am arbenigedd y gwahanol gyrff; a**

b) **rhannu gwybodaeth berthnasol drwy gydol y prosiect, gan gynnwys, yn benodol, newidiadau sylweddol yn y cynlluniau busnes.**

**Yr Ymateb**

Yng Nghymru, noddwyr cyhoeddus Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yw Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) a Bwrdd Croeso Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn y ddau argymhelliad yn yr Adroddiad, sy'n gysylltiedig â'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru sy'n atebol i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Ar argymhelliad 1(a), mae'n ailddatgan ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddefnyddio cynlluniau senario cadarn ac i ddefnyddio'r dadansoddiad o sensitifrwydd a nodwyd yn ei hymateb i Adroddiad y Pwyllgor Archwilio, "OSIRIS: Y Contract Menter Cyllid Preifat (PFI) ar gyfer Technoleg Gwybodaeth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru".

Mae "Llyfr Gwyrdd" y Trysorlys - Arfarnu a Gwerthuso mewn Llywodraeth Ganolog - yn ffynhonnell hanfodol o gyngor a chanllawiau wrth gynllunio a gweithredu prosiectau cyfalaf a ariennir gan y Cynulliad. Mae'r Llyfr Gwyrdd yn pwysleisio bod dadansoddiad o sensitifrwydd yn hanfodol wrth arfarnu ac y dylai fod yn rhan bwysig o achos busnes bob amser, oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

Er nad yw'r Llyfr Gwyrdd yn berthnasol, o reidrwydd, i'r gweinyddiaethau datganoledig, ar 1 Ebrill 2003 ysgrifennodd Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Cynulliad at brif weithredwyr yr holl Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC), yn nodi bod Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried ei fod yn gofnod o arfer gorau ac y dylai pob CCNC dalu sylw llawn iddo. Ar 29 Tachwedd 2005, yn dilyn cyhoeddi Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar yr Ardd, ysgrifennodd y Prif Swyddog Cyfrifyddu eto at Brif Weithredwyr y CCNCau ac at Swyddogion Is-Gyfrifyddu'r Cynulliad yn ailddatgan yr angen i lynu wrth y Llyfr Gwyrdd.

Un o'r pethau y mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu bellach yn ceisio cael sicrwydd yn eu cylch cyn llofnodi'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol, sef rhan o gyfrif adnodd blynyddol y Cynulliad, yw bod arfarniad o opsiynau ac o fuddsoddiadau wedi'i gynnal mewn perthynas â phob penderfyniad â goblygiadau gwariant mawr a wneir gan y Cynulliad. Roedd llythyr 29 Tachwedd yn ei gwneud yn glir bod yna ddisgwyliad y dylai holl swyddogion cyfrifyddu CCNCau a swyddogion is-gyfrifyddu'r Cynulliad geisio sicrwydd cyffelyb o ran eu cyfrifoldebau.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn derbyn yn llawn yr angen am gynllunio priodol wrth gefn, fel y nodir yn argymhelliad 1(b), a rheoli peryglon yn gadarn. Nodir hyn yn Fframwaith Rheoli Risg Llywodraeth y Cynulliad, a ddiwygiwyd ac a ddiweddarwyd yn ddiweddar. Caiff dogfen y Fframwaith ei rhoi ar wefan Llywodraeth y Cynulliad a'i chyhoeddi i roi canllawiau i bob CCNC.

Mae'r broses rheoli risg yn nodi, yn asesu ac yn rheoli perygl sy'n dod i'r amlwg wrth gymryd cyllid prosiectau cyfalaf mawr yn ei flaen, a bydd yn cynnwys cwestiynu rhagdybiaethau a wneir mewn cynlluniau busnes yn gadarn ac unrhyw newidiadau dilynol a wneir mewn modd sy'n cyd-fynd ag argymhelliad 1(c).

Mae'r angen am gydweithredu a chyfathrebu effeithiol rhwng partneriaid prosiect (argymhelliad 2(a)) hefyd ymhlyg wrth gadw at ganllawiau'r Llyfr Gwyrdd. Mae hyn yn nodi y dylid cynnal arfarniadau a gwerthusiadau ar y cyd lle bynnag y bo'n bosibl a bod angen diffinio cyfrifoldebau arwain. Caiff

hyn ei ailddatgan yn y Fframwaith Rheoli Risg sy'n pwysleisio bod angen dealltwriaeth glir o bwy sy'n “berchen” ar y risg.

Bydd hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth faterol (argymhelliad 2(b)).  Mae uno'r WDA, y WTB ac ELWa â Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ehangu ei gallu i asesu a monitro perygl ar y cyd a rhannu gwybodaeth ynghylch prosiectau cyfalaf mawr.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn derbyn yr angen am werthuso manteision yn drwyadl ar gyfer prosiectau cyfalaf mawr yn dilyn penderfyniad cyllido. Mae'r Llyfr Gwyrdd yn nodi'r rheoli risg a'r gweithdrefnau, a nodir yn Adolygiad Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth, fel agweddau arbennig o bwysig ar y broses arfarnu a gwerthuso. Mae'r broses "Gateway" yn archwilio polisïau, rhaglenni a phrosiectau ar adegau hanfodol yn eu cylch bywyd i roi sicrwydd y gallant symud yn llwyddiannus ymlaen i'r cam nesaf. Mae'n rhoi pwyslais mawr ar brofi cryfder a fforddiadwyedd achosion busnes prosiectau wrth iddynt newid a datblygu, yn ogystal â'r angen am gynllunio wrth gefn clir a chyfathrebu a dealltwriaeth effeithiol rhwng partneriaid prosiectau a rhanddeiliaid.

Mae'r Cynulliad yn defnyddio gweithdrefnau Gateway i gryfhau'r ffordd y rheolir ei brosiectau cyfalaf mawr ei hunan. Er enghraifft, cymhwyswyd gweithdrefn Gateway i broses gaffael Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu gwasanaethau TGCh (contract MERLIN); prosiect Band Eang y Sector Cyhoeddus; a phrosiectau Adeilad y Cynulliad. Hefyd cynhelir gweithdrefnau Gateway mewnol ar rai prosiectau newid busnes o dan gontract MERLIN, sy'n asesu'r achosion busnes a chynlluniau prosiectau.  Ar hyn o bryd, mae'n cael ei chymhwyso i Raglen Strategaeth Leoli Llywodraeth y Cynulliad.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wrthi'n hyrwyddo'r defnydd o Adolygiadau "Gateway" fel arfer gorau ar draws y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ac mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r ffordd y gellir ymgorffori arfer gorau o ran rheoli rhaglenni a phrosiectau mewn cynlluniau yn y dyfodol a ariennir gan arian cyhoeddus a ddarperir gan y Cynulliad.  Mae Gwerth Cymru wrthi'n trafod gyda Swyddfa Masnach y Llywodraeth. Y nod yw cael ei gymeradwyo fel canolbwynt i “Gateway” yng Nghymru.  Mae Llywodraeth y Cynulliad eisoes wedi comisiynu sefydliad sector preifat i hwyluso'r gwaith o ymgymryd â gweithdrefnau Gateway. Hefyd, drwy Gwerth Cymru, mae'n cefnogi datblygiad egwyddorion Gateway o ran rheoli rhaglenni a phrosiectau drwy roi cyngor ar arfer gorau ar draws y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru ar gyfer datblygu, gwerthuso a rheoli prosiectau mawr.

Anfonir copi o'r ymateb hwn at swyddogion is-gyfrifyddu'r Cynulliad; swyddogion cyfrifyddu y CCNCau a swyddogion cyfrifyddu cyrff cyhoeddus eraill mewn perthynas ag arian Llywodraeth y Cynulliad unwaith y bydd wedi'i roi gerbron y Cynulliad.